

Ymddiriedolwr – Y Bartneriaeth Awyr Agored

Cydnabyddiaeth: Nid oes unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ynghlwm â rôl yr Ymddiriedolwr ond fe fyddwn yn talu unrhyw dreuliau.

Ymroddiad amser: Mae'r ymroddiad amser gofynnol ar gyfer Cyfarwyddwr Bwrdd gyfwerth â 12 diwrnod y flwyddyn. Mae gofyn i'r aelodau fynychu 6 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn (sydd oddeutu 2 awr o hyd fesul cyfarfod).

Dyddiad cau 12 hanner dydd ar yr 17eg o Dachwedd 2021.

Swydd Ddisgrifiad

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored, a sefydlwyd yn 2004, yn elusen lwyddiannus, effeithiol ac uchel ei chlod. Mae'r Bartneriaeth yn ysbrydoli pobl yr ardal i ymwneud gyda gweithgareddau awyr agored drwy gymryd rhan ynddyn nhw, cyflawni addysg awyr agored, gwneud gwaith gwirfoddol neu ddod o hyd i waith yn y maes. Hoffai'r Bartneriaeth fynd ati i gryfhau eu bwrdd ymhellach fyth drwy benodi Aelod Bwrdd anweithredol sy'n meddu ar arbenigedd a sgiliau yn y maes **Gweithrediadau Cyfreithiol**. Ydych chi'n dymuno cyfrannu tuag at waith a threfn llywodraethu elusen leol gan wella bywydau drwy weithgareddau awyr agored? Yn ogystal ag yn dymuno ein cynorthwyo i lywio ein nodau ac amcanion strategol ar gyfer y dyfodol? Os felly, hoffem glywed gennych chi.

Mae gweithredu fel Ymddiriedolwr ar ran mudiad yn rôl gyffrous a boddhaus. Y Byrddau mwyaf effeithiol ydy'r rheiny sy'n elwa o unigolion o gefndiroedd amrywiol ac sy'n meddu ar brofiadau a sgiliau amrywiol. Mae'r BAA yn ymroi i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant ac maen nhw'n annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol.

Rôl Ymddiriedolwr ydy sicrhau bod y Bartneriaeth Awyr Agored yn cyflawni eu dyletswydd ar ran eu buddiolwyr ac yn cyflawni ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd <https://partneriaeth-awyr-agored.co.uk/about-us/>.

Dyma ddyletswyddau statudol yr ymddiriedolwyr:

- Sicrhau bod y mudiad yn cydymffurfio gyda'i dogfen llywodraethu – Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu.
- Sicrhau bod y mudiad yn cyflawni eu hamcanion fel caiff eu diffinio yn y ddogfen llywodraethu.
- Sicrhau bod y mudiad yn defnyddio'u hadnoddau'n benodol i gyflawni ei amcanion – ni ddylai'r elusen wario cyllid ar weithgareddau na chaiff eu crybwyll yn eu hamcanion, waeth pa mor 'elusennol' a 'gwerth chweil' ydy'r gweithgareddau hynny.
- Cyfrannu'n weithredol at rôl y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnig cyfeiriad strategol cadarn i'r mudiad, pennu polisi cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad gan gymharu gyda'r targedau y cytunwyd arnyn nhw.
- Diogelu enw da a gwerthoedd y mudiad
- Sicrhau gwaith gweinyddol effeithiol ac effeithlon ar ran y mudiad
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y mudiad.
- Diogelu a rheoli eiddo'r mudiad a sicrhau caiff cyllid y mudiad ei fuddsoddi'n briodol.

- Os ydy'r mudiad yn cyflogi staff, i benodi'r Prif Weithredwr a monitro ei berfformiad o neu hi.

At hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr gadw'r elusen "mewn ymddiriedolaeth" ar y cyd ag ymddiriedolwyr eraill ar gyfer buddiolwyr presennol ac yn y dyfodol drwy gyflawni'r canlynol:

- Sicrhau bod yr elusen yn meddu ar weledigaeth, cenhadaeth a chyfeiriad strategol pendant a'u bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r rhain.
- Bod yn gyfrifol dros berfformiad yr elusen a'i hymddygiad "corfforedig" gan sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Gweithredu fel gwarchodwyr ar ran asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r elusen gan gymryd gofal priodol dros eu diogelwch, eu defnydd a sicrhau cân nhw eu gweithredu'n briodol
- Sicrhau bod trefn llywodraethu'r elusen o'r radd flaenaf

Yn ogystal â'r amryw ddyletswyddau statudol, fe ddylai unrhyw ymddiriedolwr fanteisio i'r eithaf ar unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol i gynorthwyo'r bwrdd i wneud penderfyniadau effeithiol.

Fe ddylai'r holl ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o a deall eu cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd a ni ddylen nhw fod yn or-ddibynnol ar un neu fwy o ymddiriedolwyr unigol o ran unrhyw agwedd yn ymwneud â llywodraethu'r elusen.

Ymddiriedolwr dros Weithrediadau Cyfreithiol

Yn ogystal â chyfrifoldebau cyffredinol ymddiriedolwr, mae dyletswyddau'r Ymddiriedolwr dros Weithrediadau Cyfreithiol yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol ac yn cysylltu ag aelodau eraill y Bwrdd ynglŷn â'u cyfrifoldebau cyfreithiol.
- Cynghori'r Bwrdd ar eu cyfrifoldebau cyfreithiol a goblygiadau eu penderfyniadau.
- Ar y cyd â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, cynghori'r Bwrdd pan fydd angen cyngor cyfreithiol arbenigol.
- Cysylltu ag aelodau eraill y Bwrdd ar ofynion cyfreithiol o fewn eu meysydd o gyfrifoldebau.
- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, sicrhau fod y sefydliad yn cynnal asesiadau risg.

Profiad:

- Profiad llwyddiannus o weithredu fel rhan o fwrdd mudiad elusennol, sector cyhoeddus neu fasnachol
- Profiad amlwg o feithrin a chynnal perthnasau gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr allweddol i gyflawni amcanion cyfundrefnol
- Hanes o gynnig barn gadarn a gwneud penderfyniadau effeithiol
- Hanes o ddiueddrwydd, tegwch a'r gallu i barchu cyfrinachau
- Hanes o ymroddiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb

Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth:

- Ymrwymiad i'r mudiad a pharodrwydd i ymroi'r amser a'r ymdrech priodol
- Parodrwydd i gynnig argymhellion amhoblogaidd i'r bwrdd a pharodrwydd i leisio'u barn

- Parodrwydd i fod ar gael i staff fanteisio ar gyngor ac ymholiadau ar sail ad hoc
- Barn a gweledigaeth strategol effeithiol ac annibynnol
- Deall a derbyn y dyletswyddau, cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau cyfreithiol ynghlwm ag ymddiriedolaeth
- Gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm
- Dealltwriaeth o rolau priodol y Cadeirydd, Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr

Dim ond detholiad o'r dyletswyddau sydd wedi'u rhestru uchod, nid yw'n rhestr gyflawn. Bydd disgwyl i'r Ymddiriedolwr gyflawni holl ddyletswyddau ychwanegol sy'n gymesur yn rhesymol â'r rôl.

Os oes gennych chi ddiddordeb ac os hoffech chi fwy o wybodaeth am y rôl a gwaith y Bartneriaeth Awyr Agored, cysylltwch gyda Tracey Evans, Prif Weithredwr ar 07921 700 521 neu e-bostiwch tracey.evans@outdoorpartnership.co.uk.

Gallwch gyflwyno ceisiadau drwy e-bostio llythyr cais a CV i'r Prif Weithredwr.

Dyddiad cau 12 hanner dydd ar yr 17eg o Dachwedd 2021